

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	15 Rhagfyr 2021

---

**PWNC**

Eitem 6:TIM CYMUNEDAU GLAN A THACLUS

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd sefydlu Tîm Cymunedau Glan a Thaclus i ymgymryd â man waith cynnal ac i ategu gweithgareddau cynnal rheolaidd.

Cymeradwywyd dyraniad o £1,523,730 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu'r tîm a'u costau cysylltiedig ar sail un-tro am gyfnod o dair blynedd i gychwyn cyn gynted a phosib.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd "Cymunedau Glan a Thaclus" fel blaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor yn 2021/22. Yn ychwanegol at hyn amlygwyd pryderon am flewch a diffyg buddsoddiad mewn harddu cymunedau fel themâu sydd o bwys i drigolion Gwynedd yn ystod ymgynghoriad 'Ardal Ni'.

Oherwydd pwysau ar yr adnoddau sydd gan yr adran ar gyfer gwaith cynnal achadw rheoliadd mae man faterion sy'n effieithio ar edrychiad y Sir yn dueddol o gael eu methu. Er mwyn sicrhau fod y gwaith yma'n derbyn sylw priodol mae angen darpariaeth newydd i wneud y gwaith.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	15 Rhagfyr 2021

---

**PWNC**

Eitem 7:ACHOS BUSNES HUNANIAITH

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo ymrwymiad £203,880 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu swydd ychwanegol am gyfnod 4 blynedd i reoli'r gwasanaeth a gwella sefyllfa Hunaniaith fel uned o fewn y Cyngor am y tro, gan ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar 24 Tachwedd 2020 penderfynodd y Cabinet fod angen gwneud gwaith pellach ar ystyried opsiynau posib i'r dyfodol ar gyfer Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd ac i sefydlu tasglu o swyddogion i adnabod y camau angenrheidiol sydd angen eu dilyn i greu achos busnes cadarn ar gyfer yr opsiynau posib.

Roedd yr adroddiad hwn yn adrodd yn ôl i'r Cabinet o'r gwaith sydd wedi ei wneud i ystyried opsiynau posib.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	15 Rhagfyr 2021

---

### PWNC

Eitem 8:CYNLLUN AWTISTIAETH

---

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cynllun Awtistiaeth 2021-23.

Cytunwyd i ragfarnu'r broses 'bidiau' blynyddol a chaniatáu 'bid' am £48,000 o gyllideb refeniw parhaol er mwyn ariannu swydd Cydlynnydd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost flynyddol o £144,000 gyda'r Cyngor yn cyfrannu traean o'r gost.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r maes awtistiaeth yn faes blaenoriaeth i'r Cyngor ac o ganlyniad mae mabwysiadu'r Cynllun yn rhan bwysig o sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu'r flaenoriaeth.

Mae Cod Ymarfer newydd wedi dod i rym ym Medi 2021 ac bydd gweithredu'r cynllun yn cydymffurfio gyda'r Cod hwn. Eglurwyd fod y Cod Ymarfer yn berthnasol i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd yng Nghymru ac fod manteision clir o weithredu cynllun ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd.

Yn dilyn cwyn am y Cyngor mae'r Ombwdsman wedi rhoi argymhellion i'r Cyngor a bydd mabwysiadu'r Cynllun yn sicrhau fod y Cyngor wedi gweithredu'r argymhellion yn llawn.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	15 Rhagfyr 2021

---

### PWNC

Eitem 9:NEWID TREFNIADAU CYMERADWYO SYMIAU HYD AT £100,000 O'R GRONFA TRAWSFFURFIO

---

### PENDERFYNIAD

Er mwyn hwyluso trefniadau mwy ystwyth ar gyfer gwario, penderfynwyd i ddirprwyo grym i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Cyllid, i ymrwymo symiau hyd at £100,000 o'r Gronfa Trawsffurfio a/neu'r Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid-19.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2013, yn wyneb y cyfnod ariannol heriol ac o gynni o safbwynt cyllidebau llywodraeth leol, penderfynwyd newid trefn cymeradwyo gwariant o'r Gronfa Trawsffurfio, gyda pob ymrwymiad o'r Gronfa yn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

Wedi ystyried maint y Gronfa Trawsffurfio, awgrymwyd y dylid sefydlu trefn ddiwygiedig, oherwydd yr angen i symud ymlaen i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor heb unrhyw oediad, gan gyfarch anghenion gwario sydyn. Ar gyfer ymrwymo adnoddau un-tro, mae'n addas bellach i gyflwyno trefn fwy ystwyth ar gyfer gwariant hyd at £100,000, yn ddarostyngedig ar fod y gwariant yn cydymffurfio gyda blaenoriaethau'r Cynllun Gwella / Cynllun y Cyngor. Byddai hyn yn gyson efo'r trefniadau oedd yn bodoli cyn Gorffennaf 2013.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	15 Rhagfyr 2021

---

**PWNC**

Eitem 10:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	30 Tachwedd 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	15 Rhagfyr 2021

---

**PWNC**

Eitem 11:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---